

Ni yw'r Dyfodol Hwylusydd Creadigol Disgrifiad Swydd

| | |
|---------------------|---|
| Teitl swydd: | Hwylusydd Creadigol |
| Adrodd i: | Cynhyrchydd y Prosiect |
| Contract: | Contract Llawrydd |
| Cyflog/Ffi | £6,400 am 32 diwrnod @£200/diwrnod |
| Oriau: | Dyddiau i'w gweithio'n hyblyg rhwng Mawrth – Mehefin 2022 |
| Man gwaith: | Mae hon yn swydd llawrydd a bydd yn cynnwys gweithio ystwyth, hyblyg. Eich prif weithle fydd Canolfan Gelfyddydau Melville yn y Fenni a chyflenwi mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol. Bydd y systemau gweinyddol a chefnogaeth sefydliadol drwy Theatr y Borough. |

Diben y swydd:

Mae Ni yw'r Dyfodol yn brosiect ymchwil a datblygu uchelgeisiol yn seiliedig yn y Fenni a Gogledd Sir Fynwy. Caiff y prosiect ei gyflwyno mewn partneriaeth rhwng Theatr y Borough a Theatr Melville ac mae'n anelu cysylltu gyda a chrynhoi ysbryd creadigol pobl ifanc yn yr ardal. Drwy weithio partneriaeth a chonsortium, rydym eisiau rhoi pobl ifanc wrth ganol dyluniad a datblygiad y prosiect.

Bwriad y prosiect yw dod â ieuencid Gogledd Sir Fynwy ynghyd i leisio eu safbwyntiau, i ddynodi'r profiadau a'r pryderon a rannant a gweithio ar syniadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r prosiect yn hyrwyddo perchnogaeth o farn/sylwadau unigol a rhannu creadigrwydd.

Rydym yn edrych am 3 x Hwylusydd Creadigol i gymryd rhan mewn hwyluso gweithdai a pherfformiadau sydd â phobl ifanc yn greiddiol iddynt. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed gan hwyluswyr creadigol o ystod o ddulliau celf er enghraifft Cerddoriaeth, Theatr, Celfyddydau Gweledol, Ffilm a Technolegau Digidol, Dawns. Rydym yn edrych am ymarferwyr creadigol a ddefnyddir i lunio gwaith ar y cyd gyda phobl ifanc yn gweithio mewn amrywiaeth o osodiadau, o ysgolion i grwpiau cymunedol. Pen llanw'r prosiect fydd Gŵyl Celfyddydau Ieuencid a gynhelir dros benwythnos Gŵyl Banc y Jiwibili.

Mae pum cyfnod i'r prosiect:

1: Datblygu Prosiect

Byddwch yn rhan o dîm fydd yn dylunio a datblygu'r prosiect, gan weithio gyda'r rhwydwaith mwy o fudiadau ieuencid a diwylliannol lle gall a mae pobl ifanc yn cael mynediad i gyfleoedd diwylliannol o ysgolion i fandiau pres, clybiau ieuencid i sgowtiaid a geidiaid, corau ieuencid amatur i ysgolion dawns proffesiynol.

2: Ymgysylltu

Byddwch yn cynllunio ac yn chyflenwi cyfleoedd megis sesiynau blasu a digwyddiadau trafod a gweithdai gyda phobl ifanc, i ddenu pobl ifanc i gymryd rhan yn y prosiect ac i ddynodi'r themâu, materion a chwestiynau y bydd y prosiect yn eu hymchwilio a'r sgiliau creadigol, cyfryngau a llwyfannau y mae'r cyfranogwyr yn dymuno eu hymchwilio gyda nhw.

3: Ymchwilio

Byddwch yn llunio, cefnogi a chychwyn gweithgaredd sy'n adeiladu sgiliau yn y diwydiant creadigol, sy'n caniatáu ystyried, ymchwilio, dadansoddi a sylwadau ar bynciau a themâu a ddynodir yn y cyfnod blaenorol.

4: Dod Ynghyd

Pen llanw'r gwaith fydd Gŵyl Celfyddydau Ieuenctid a gynhelir dros Benwythnos Gŵyl Banc y Jiwbilf (2 i 5 Mehefin 2022). Byddwch yn llunio a threfnu fframweithiau a digwyddiadau i arddangos sgiliau, gweithgaredd diwylliannol ac uchelgais y bobl ifanc. Wedi'i lunio gan broses y prosiect, gall y fformat fod yn ŵyl celfyddydau fach, cyfres o berfformiadau neu arddangosfeydd, cynhadledd ieuenctid lleol, digwyddiad cymryd tref drosodd neu benwythnos weithgareddau celf.

5: Gwerthuso

Fel Hwylusydd Creadigol disgwylir i chi ymwneud ag a bwydo i broses werthuso y prosiect.

Tasgau a chyfrifoldebau allweddol:

- Fel rhan o dîm, cynllunio'r rhaglen waith, gan gymryd gofal arbennig i gynnwys cyfleoedd i gysylltu gyda a llunio gwaith newydd gan gydweithio'n agos gyda phobl ifanc yn yr ardal.
- Cyflwyno rhaglen o weithgaredd celfyddydau mewn ysgolion a gosodadau cymunedol.
- Mewn cysylltiad gyda Chynhyrhydd y Prosiect a gweithio fel rhan o dîm o Brif Hwyluswyr creadigol i gynllunio ar gyfer, gweithio tuag at a chyflwyno Gŵyl Celfyddydau Ieuenctid ym Mehefin 2022.
- Gweithio'n effeithlon i gyfathrebu gyda Chynhyrhydd y Prosiect ac aelodau eraill o'r tîm drwy ddiweddariadau a chyfarfodydd rheolaidd
- Cydymffurfio gyda pholisïau Cyngor Sir Fynwy fel sydd angen.

Meini Prawf Hanfodol

- Hanes amlwg o lwyddiant mewn cyflwyno prosiectau cynhwysol celfyddydau ieuenctid a gyda ffocws ar y cyfranogwyr
- Grym creadigol, awyddus i alluogi pobl i gyrchu'r creadigrwydd o'u mewn a pharod i fentora'r genhedlaeth nesaf o artistiaid
- Gallu i wrando ar a chysylltu mewn ffyrdd creadigol gyda phobl ifanc
- Profiad a dealltwriaeth eang ac ymrwymiad i weithgaredd diwylliannol gwirfoddol ac amatur
- Gwybodaeth a phrofiad o seilwaith sector celfyddydau/diwylliannol Cymru
- Profiad wedi'i ddogfennu mewn cyflwyno gweithdai a hwyluso'r broses creadigol mewn ffordd hyblyg ac ystwyth
- Gallu i deithio o amgylch Gogledd Sir Fynwy
- Parodrwydd i weithio ar benwythnosau a gyda'r nos pan fo angen
- Gwybodaeth waith a gallu i weithio o fewn polisïau diogelu presennol
- Gwiriad DBS cyfredol

Meini Prawf Dymunol:

- Gallu i siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg

Sut i Wneud Cais:

Darllenwch y disgrifiad swydd a'r fanyleb person islaw ac anfon eich CV a llythyr egluro yn dweud pam fod y rôl o ddiddordeb i chi a sut mae eich sgiliau'n cyfateb gyda'r hyn yr edrychwn amdano.

Anfonwch bopeth at Gynhyrchydd y Prosiect: asa.malmsten@coachcreate.co.uk
Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 12.00 canol-dydd ddydd Llun 7 Chwefror 2022.

Cynhelir cyfweiliadau ddydd Mawrth 15 Chwefror 2022.

Gobeithiwn gwblhau'r broses recriwtio erbyn 25 Chwefror gyda golwg ar gael Hwyluswyr Creadigol yn eu swydd o fis Mawrth 2022.

Os oes gennych unrhyw ofynion mynediad arbennig i'ch galluogi i wneud cais am y rôl, gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda drwy anfon e-bost at Gynhyrchydd y Prosiect:
asa.malmsten@coachcreate.co.uk